
# Digwyddiadau a gweithgareddau



Mae tîm o wirfoddolwyr lleol yn helpu i reoli'r prosiect a threfnu digwyddiadau:

Rydym yn cynnal diwrnodau cadwraeth rheolaidd, lle gallwch chi wneud rhywfaint o ymarfer corff a helpu i wneud y goedwig yn lle dymunol i bawb. Rydym hefyd yn cynnal teithiau cerdded tymhorol a gweithgareddau eraill yng nghwmni arbenigwyr i helpu pobl o bob oedran i fwynhau a dysgu am fywyd gwyllt. I ddarllen y newyddion diweddaraf ac i weld sut y gallwch chi gymryd rhan, ewch i dudalen 'Coed y Bont' ar Facebook.





# Events and activities

A team of local volunteers helps to run the project and organise events. We have regular conservation days where you can enjoy a couple of hours of healthy exercise and help to make the woodland a pleasant place for everyone. We also run seasonal guided walks and other activities in the company of experts, to help people of all ages enjoy and learn about wildlife.


Look for us on Facebook 'Coed y Bont' for the latest news and how to get involved.



# Sut i gyrraedd y goedwig

Mae'r fynedfa i'r goedwig (arwydd 'Coed Dolgoed') tua hanner milltir o siop pentref Pontrhydfendigaid, ar y ffordd i Abaty Ystrad Fflur (cyfeirnod grid SN737659).

Rydym yn croesawu cŵn a gedwir o dan reolaeth, ond cofiwch lanhau ar eu holau.




# How to get there

The woodland entrance (signed 'Coed Dolgoed') is about half a mile from Pontrhydfendigaid village shop, along the road to Strata Florida Abbey (grid reference SN737659).

We welcome dogs that are kept under control but please clear up and take away any mess.

**CROESO I BAWB**

**EVERYONE WELCOME**

COED Y BONT

Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales

Ewch i dudalen 'Coed y Bont' ar Facebook

You can find us on Facebook 'Coed y Bont'

Environment Wales / Amgylchedd Cymru

CAVO

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Coedwig Gymunedol 'Coed Y Bont'

'Coed Y Bont' Pontrhydfendigaid Community Woodland




Prosiect coedwig gymunedol yng nghefn gwlad ysblennydd Canolbarth Cymru, ger safle hanesyddol Abaty Ystrad Fflur, Pontrhydfendigaid

A community woodland project in the lovely countryside of Mid Wales, near the historic site of Strata Florida Abbey, Pontrhydfendigaid









Coedwig Gymunedol 'Coed Y Bont'

'Coed Y Bont' Pontrhydfendigaid Community Woodland

## Coedwig i'r gymuned



Mae grŵp cymunedol Coed y Bont yn helpu i reoli coetiroedd Coed Dolgoed a Choed Cnwch mewn ffordd ystyriol ac ecogyfeillgar, mewn partneriaeth â Cyfoeth Naturiol Cymru.

Trwy ddigwyddiadau, gweithgareddau a llwybrau sy'n ystyriol o fywyd gwyllt, rydym yn ceisio codi ymwybyddiaeth a helpu pobl i fwynhau a deall natur y goedwig a'i phwysigrwydd i'r ardal.

I helpu pobl i fwynhau'r goedwig a'i bywyd gwyllt, rydym yn gwella mynediad trwy ddatblygu rhwydwaith o lwybrau er mwyn creu teithiau cerdded cylchol a theithiau hirach sy'n cysylltu â llwybrau eraill.






## A woodland for the community

Coed y Bont community group helps to manage the adjoining woodlands of Coed Dolgoed and Coed Cnwch in a sympathetic and environmentally friendly way, in partnership with Natural Resources Wales.

Through wildlife-friendly trails, events and other activities, we aim to increase awareness, enjoyment and understanding of the woodland's natural history and its importance to the surrounding area.

To help people enjoy the woodland and its wildlife, we are improving access by developing a network of paths to create both circular walks and longer walks that link with surrounding footpaths.






## Allwedd i'r map
## Map key

Llwybr mynediad hawdd
Easy access path

Llwybr / Path

COED Y BONT

## Coedwig i fywyd gwyllt

Mae Coed Dolgoed wedi newid o fod yn goedwig gonwydd i fod yn goedwig gollddail. Mae'r ardal hon yn hynod boblogaidd ymhlith ieir bach yr haf, gwyfynod a gweision y neidr. Mae llygoden y dŵr yn defnyddio'r ffosydd ac mae yna ddigonedd o bryfed i fwydo'r holl adar.



Mae Coed Cnwch yn goedwig hynafol sy'n cynnwys coed cyll, coed derw sy'n ganrifoedd oed ac ardaloedd gwlypach sy'n cynnwys coed bedw a choed gwern. Mae rhai coed conwydd yn y goedwig o hyd, gyda'r casgliad hwn o goed aeddfed yn cynnwys llu o gennau a ffyngau, ac mae'n werth ei gweld pan fo clychau'r gog yn eu hanterth.

Mae'r amrywiaeth o gynefinoedd yn denu rhywogaethau amrywiol a phrin, megis y barcud coch, titw'r wern a llygoden y dŵr. Mae'r bywyd gwyllt hwn o ddiddordeb gydol y flwyddyn, felly mae arolygon ecolegol yn cael eu cynnal drwy'r amser ac rydym bob amser yn awyddus i glywed am unrhyw beth rydych chi wedi'i weld.





## A woodland for wildlife

Coed Dolgoed was previously coniferous, but is now regenerating with deciduous trees. This area is a favourite haunt of butterflies, moths and dragonflies, attracting passing hobbies. Water voles frequent the ditches and abundant insect life feeds the many breeding birds.

Coed Cnwch is an ancient woodland with hazel, centuries old oaks and wetter areas containing birch and alder. Along with some remaining blocks of conifers, this mosaic of mature trees is rich in lichens and fungi and especially stunning at bluebell time.

The variety of habitats attracts diverse and sometimes rare species, such as red kites, marsh tits, water voles and the aptly named hazel gloves fungus. With wildlife riches offering year round interest, ecological surveys are ongoing and sightings are always welcome.

